

CANLLAWIAU POLISI

SEFYDLIADAU RHYW - ATODLEN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ADRAN 27 DEDDF PLISMONA A THROSEDD 2009)

1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi awdurdodau lleol i reoli dros sefydliadau rhyw mewn amrywiol ffyrdd. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:-

- (a) Addasrwydd personau i ddal trwydded.
- (b) Ardal / y cyffiniau / amodau eiddo perthnasol.
- (c) Nifer y sefydliadau rhyw trwyddedig.
- (ch) Yr amodau mae'r drwydded yn cael ei dal.

Gwybodaeth bellach

1.2 (a) Addasrwydd person i ddal trwydded

Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi awdurdod lleol i wrthod trwydded ar y sail bod:

- (i) Yr ymgeisydd yn anaddas oherwydd iddo gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd neu unrhyw reswm arall. (Mae hyn yn darparu canllawiau cyffredinol yn unig a phetai angen ystyried addasrwydd yr ymgeisydd yn fanwl mewn perthynas â phob cais unigol a dderbyniwyd. Byddai materion perthnasol yn cynnwys troseddau mewn perthynas â chyhoeddiadau anwedus, gwaharddiad rhag dal trwydded sefydliad rhyw blaenorol, troseddau'n gysylltiedig ag amodau trwydded, y gallu i reoli sefydliad o'r fath. **Felly, bydd barn yr heddlu'n cael ei hystyried mewn perthynas â phob cais a dderbynnir.**
- (ii) Petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, ei hadnewyddu neu ei throsglwyddo, byddai'r busnes sy'n ymwneud â hi yn cael ei reoli gan, neu'n cael ei gynnal er budd person, ac eithrio'r ymgeisydd, y gwrthodid caniatáu, adnewyddu neu drosglwyddo trwydded o'r fath iddo, petai ef ei hun yn gwneud y cais.

(b) Ardal / cyffiniau / amodau eiddo perthnasol

Gallai awdurdod lleol wrthod cais am ganiatáu neu adnewyddu trwydded ar y sail ei fod yn cael ei ystyried yn amhriodol o ran:-

- (i) Cymeriad yr ardal berthnasol: gallai ystyriaethau gynnwys y defnydd amlycaf o'r ardal honno, e.e. masnachol,

preswyl, amaethyddol, diwydiannol a phriodoldeb lleoli sefydliad rhyw yn y math hwnnw o ardal.

- (ii) Y defnydd roddir i unrhyw eiddo yn yr ardal; gallai ystyriaethau gynnwys y defnydd o adeiladau cyfagos, ac a ystyrir eu bod yn gydnaws â'r adeilad arfaethedig ai peidio a fyddai'n canolbwyntio ar ryw fel adloniant i oedolion.

Fel rheol gyffredinol bydd rhagdybiaeth yn erbyn trwyddedu sefydliad rhyw os yw:-

- (a) Yn agos at ysgolion, ardaloedd chwarae, meithrinfeydd, canolfannau plant neu adeiladau tebyg eraill;
- (b) Yn agos i addoldai;
- (c) Yn agos neu o fewn golwg i adeiladau hanesyddol neu atyniadau twristaidd;
- (ch) Yn agos i gyfadeiladau siopa;
- (d) Yn agos i ardaloedd preswyl.

Mae paragraff 12 o Atodlen 3 o'r Ddeddf yn nodi y caiff awdurdod lleol wrthod cais os yw'n fodlon bod nifer y sefydliadau rhyw yn yr ardal berthnasol ar adeg gwneud y cais yn hafal neu'n fwy na'r nifer y mae'r awdurdod yn ystyried yn briodol ar gyfer yr ardal honno. Nid yw'r Cyngor o fewn y polisi hwn yn ceisio rhoi ffigur ar nifer y sefydliadau rhyw y mae'n eu hystyried mewn unrhyw ardal o fewn cyffiniau gweinyddol y Cyngor. Rhoddir ystyriaeth i'r ardal ym mhob achos ac i nifer y sefydliadau rhyw sy'n addas ar gyfer yr ardal honno. Gall y Cyngor benderfynu mai'r rhif priodol ar gyfer ardal yw dim.

- (iii) Cynllun / cymeriad neu gyflwr yr adeilad y gwneir y cais mewn perthynas ag ef; gallai ystyriaethau gynnwys materion iechyd a diogelwch; darparu tystysgrifau trydanol; materion yn ymwneud â diogelwch tân ac ati.

2. Gweithdrefn Ymgeisio

2.1 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am drwydded sefydliad rhyw roi rhybudd cyhoeddus o'r cais mewn papur newydd lleol sy'n cael ei gylchredeg yn ardal yr awdurdod lleol heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl y dyddiad y gwneir y cais. Mae'n rhaid arddangos rhybudd hefyd ar neu ger yr adeilad arfaethedig, lle gall y cyhoedd ei weld. Dylai'r rhybudd gael ei arddangos am gyfnod o 21 diwrnod gan ddechrau gyda'r dyddiad y gwneir y cais. Dylai pob rhybudd fod ar y ffurf a ragnodir gan Gyngor Sir Fynwy.

2.2 Bydd ffurflenni cais Bydd ffurflenni cais ar gael fel copi caled a thrwy ddulliau electronig. Os gwneir cais yn electronig, bydd

Adran Drwyddedu Cyngor Sir Fynwy yn anfon copi o'r cais at Brif Swyddog yr Heddlu cyn pen 7 niwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud ynghyd â'r ymgynghorwyr eraill a restrir yn 2.3 isod. Pan wneir cais mewn unrhyw fodd arall bydd y cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r ymgeisydd i anfon copi o'r cais at Brif Swyddog yr Heddlu cyn pen 7 niwrnod ar ôl gwneud y cais.

2.3 Pan wneir cais, bydd Cyngor Sir Fynwy hefyd yn ystyried argymhellion yr ymgynghori, ynghyd â Phrif Swyddog yr Heddlu, gyda'r asiantaethau / adrannau canlynol:-

- (a) Yr Awdurdod Tân;
- (b) Aelodau'r Ward;
- (c) Cynllunio;
- (ch) Iechyd Amgylcheddol;
- (d) Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.4 Wedi cwblhau'r broses ymgynghori, bydd y pwyllgor trwyddedu a Rheoleiddiol yn penderfynu'r cais. Rhoddir cyfle i'r ymgeisydd annerch y Pwyllgor. Os bydd gwrthwynebwyr i'r cais, rhoddir cyfle iddynt hwythau hefyd annerch y Pwyllgor.

2.5 Bydd y Pwyllgor yn derbyn sylwadau ar y materion a amlinellir ym mharagraff 1.1 o ganllawiau'r polisi hwn.

2.6 Yn dilyn ystyried yr holl ffactorau perthnasol, bydd y Pwyllgor wedyn yn penderfynu'r cais.

2.7 Os cymeradwyir cais gan y Pwyllgor caniateir y drwydded am gyfnod o 12 mis.

3. **Yr Amodau y mae'r drwydded yn cael ei dal**

3.1 Gallai awdurdod lleol ganiatáu trwydded yn rhwym wrth delerau ac amodau a chyfyngiadau, fel mae'n ystyried yn angenrheidiol. Mae hyn yn galluogi arfer cryn dipyn o reolaeth ac mae'n ymwneud â rheoli'r adeilad, amserau agor yr adeilad, diogelwch tân, ymddangosiad allanol, cyfyngiadau oedran ac ati. **Mae'r Amodau Safonol yn atodedig.**

4. **Adolygu Canllawiau Polisi**

4.1 Gallai'r Cyngor o dro i dro adolygu cynnwys y Canllawiau Polisi hyn, yr 'ardaloedd perthnasol' at ddibenion penderfynu ceisiadau am Sefydliadau Rhyw a'r 'nifer briodol' ar gyfer pob ardal.

“Deiliad Trwydded”	mae'n golygu person sy'n ddeiliad trwydded sefydliad rhyw
“Trwydded Sefydliad Rhyw”	mae'n golygu trwydded a ganiatawyd yn unol ag Atodlen 3 o'r Ddeddf
“Cymeradwywyd”	mae'n golygu cymeradwyaeth gan y Cyngor yn ysgrifenedig
“Caniatâd”	Cymeradwyaeth y Cyngor

Cyffredinol

2. Os bydd gwrthdaro rhwng yr amodau safonol hyn ac unrhyw amodau arbennig eraill a gynhwysir mewn trwydded yn ymwneud â Sefydliad Rhyw, yr amodau arbennig fydd drechaf.
3. Nid ystyrir bod caniatáu trwydded yn cyfleu unrhyw gymeradwyaeth neu gydsyniad a allai fod yn ofynnol dan unrhyw ddeddfiad, is-ddeddf, gorchymyn neu reoliad ac eithrio'r Drydedd Atodlen o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd.
4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio neu ddileu unrhyw rai o'r amodau hyn neu wneud unrhyw amodau ychwanegol a allai ymddangos yn briodol.

Amserau Gweithredu

5. Ac eithrio gyda chymeradwyaeth flaenorol y Cyngor, ni fydd Sefydliad Rhyw ar agor i'r cyhoedd cyn 9 a.m. ac nid ydynt i'w cadw'n agored wedi 11 p.m.
6. Ac eithrio gyda chymeradwyaeth flaenorol y Cyngor, ni fydd Sefydliad Rhyw ar agor ar ddydd Sul, ar ddydd Gwener y Groglith a Dydd Nadolig.

Cynnal a Rheoli Sefydliadau Rhyw

7. Pan fo'r Trwyddedai yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig, bydd unrhyw newid yn y Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd y Cwmni neu berson arall sy'n gyfrifol am reoli'r corff, i'w hysbysu'n ysgrifenedig ac mae unrhyw fanylion ysgrifenedig y gallai'r Cyngor fod eu hangen mewn perthynas ag unrhyw Gyfarwyddwr, Ysgrifennydd neu Reolwr newydd i'w

rhoddi i'r Cyngor o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o gais yn ysgrifenedig gan y Cyngor.

8. Bydd y Trwyddedai, neu unrhyw berson a enwir gan y Trwyddedai at ddiben rheoli'r Sefydliad Rhyw yn absenoldeb y Trwyddedai, ac mae'r manylion wedi cael eu cyflenwi a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Cyngor, yn gyfrifol am redeg y fangre drwyddedig yn ystod yr holl amser y mae'r fangre ar agor i'r cyhoedd.
9. Bydd enw'r person sy'n gyfrifol am reoli'r Sefydliad Rhyw, p'un ai'r Trwyddedai neu Reolwr a gymeradwywyd gan y Cyngor, yn cael ei arddangos yn amlwg o fewn y Sefydliad Rhyw ar hyd y cyfnod y mae'r person hwnnw'n gyfrifol am ei gynnal.
10. Bydd y Trwyddedai'n cynnal cofrestr ddyddiol y cofnodir ynddi enw a chyfeiriad unrhyw berson sydd i fod yn gyfrifol am reoli'r Sefydliad Rhyw yn absenoldeb y Trwyddedai ac enwau a chyfeiriadau'r rheiny a gyflogir yn y Sefydliad Rhyw. Mae'r Gofrestr i'w chwblhau bob dydd o fewn deg awr ar hugain i agor y Sefydliad Rhyw ar gyfer busnes ac mae i fod ar gael ar gyfer ei harchwilio gan yr Heddlu a swyddogion awdurdodedig y Cyngor.
11. Bydd y Trwyddedai yn cadw rheolaeth dros holl rannau'r fangre drwyddedig ac ni fydd yn gosod, trwyddedu neu gael gwared â meddiant unrhyw ran o'r fangre drwyddedig.
12. Mae'n rhaid i'r Trwyddedai gadw trefn dda yn y fangre drwyddedig.
13. Ni chaniateir mynediad i unrhyw berson dan 18 oed i'r fangre drwyddedig na chael ei gyflogi ym musnes Sefydliad Rhyw.
14. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod pob person a gyflogir yn y fangre drwyddedig yn ymwybodol o gyfyngiad oedran ar gleientiaid a'u bod yn eithrio neu'n cael gwared â'r fangre drwyddedig unrhyw berson sy'n ceisio osgoi'r cyfyngiadau.
15. Ni ellid cyflogi yn y fangre drwyddedig unrhyw berson a gafwyd yn euog o'r troseddau a ganlyn neu a fu'n ymhél â chyflenwi adloniant neu nwyddau yn y fangre drwyddedig.
 - Trosedd yn gysylltiedig â sefydliad rhyw trwyddedig neu anhrwyddedig;
 - Trosedd rywiol;
 - Trosedd mewn perthynas â gwerthu 18 fideo cyfyngedig.
16. Mae'n rhaid i'r Trwyddedai sicrhau na chaniateir mynediad i'r cyhoedd i unrhyw ran o'r fangre drwyddedig ac eithrio'r rhannau hynny a gymeradwywyd gan y Cyngor.
17. Ni fydd y Trwyddedai nac unrhyw gyflogai neu unrhyw berson arall yn ceisio cwstwm ar gyfer y Sefydliad Rhyw drwy gyfrwng

deisyfiad personol y tu allan neu yng nghyffiniau mangre drwyddedig.

18. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na ddefnyddir unrhyw ran o'r fangre drwyddedig ar gyfer puteiniaid (dynion neu fenywod) ar gyfer llithio neu at unrhyw ddibenion anfoesol.
19. Arddangosir copi o'r drwydded a'r amodau safonol yn amlwg, yn unol â pharagraff 14(1) o Atodlen 3 o'r Ddeddf, fel ei bod yn hollol weladwy i gwsmeriaid a noddwyr wrth fynd mewn i'r fangre. Mae'n rhaid i gopi o'r drwydded sy'n ofynnol ei harddangos fel y dywedwyd uchod, gael ei fframio'n addas a chedwir copi o'r amodau mewn cyflwr glân a darllenadwy.

Defnydd

20. Caiff Siop Rhyw ei chynnal yn bennaf at ddiben gwerthu nwyddau drwy fanwerthu.
21. Ni wneir newid defnydd unrhyw ran o'r fangre drwyddedig o'r un a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor nes derbyn cymeradwyaeth flaenorol y Cyngor.
22. Ni fydd unrhyw newid o ddefnydd o Siop Rhyw, Sinema Rhyw neu Leoliad Sefydliad Rhyw i ddsbarthiad gwahanol o sefydliad rhyw yn cael ei gyflawni heb ganiatâd y Cyngor.
23. Ni chaiff Erthyglau Rhyw nac unrhyw bethau eraill a fwriedir i'w defnyddio mewn perthynas â, neu at ddibenion ysgogi neu annog gweithgarwch rhywiol, neu weithredoedd o rym neu ataliaeth, sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, gael eu dangos, eu gwerthu, eu llogi, eu cyfnewid, eu benthyca neu eu harddangos mewn sinema rhyw.

Nwyddau sydd ar gael mewn Sefydliadau Rhyw

24. Mae'n rhaid i'r holl Erthyglau Rhyw a'r pethau eraill a ddangosir i'w gwerthu, eu llogi, eu cyfnewid neu'u benthyca gan Siop Rhyw eu marcio'n glir i ddangos i bobl sydd y tu mewn i'r Siop Rhyw y prisiau priodol sy'n cael eu codi.
25. Bydd yr holl ddeunydd printiedig a gynigir i'w werthu, ei logi, ei gyfnewid neu'i fenthyca ar gael i'w archwilio cyn ei brynu, ei logi, ei gyfnewid neu'i fenthyca ac mae rhybudd i'r perwyl hwn i gael ei arddangos yn amlwg yn y Sefydliad Rhyw.
26. Dim ond nwyddau sydd ar gael yn gyfreithiol ym Mhrydain Fawr o allfeydd manwerthu, cwmnïau archebu drwy'r post neu gynllunwyr partïon y gellid eu gwerthu, eu llogi, eu benthyca neu'u cyflenwi, eu hysbysebu neu'u harddangos yn y sefydliad.
27. Ni chaiff unrhyw ffilm na ffilm fideo eu harddangos, eu gwerthu neu'u cyflenwi oni bai eu bod wedi'u pasio gan Fwrdd Dosbarthu Ffilm Prydain neu awdurdod arall sy'n cyflawni

swyddogaeth graffu debyg fel y gellid hysbysu i'r Trwyddedai gan y Cyngor, ac sy'n cario tystysgrif i'r perwyl hwnnw ac sy'n atgynhyrchiad a awdurdodir gan berchennog yr hawlfraint i'r ffilm neu'r fideo a ardystiwyd felly.

28. Bydd y Trwyddedai, yn ddi-dâl, yn arddangos ac yn sicrhau bod llenyddiaeth ar gwnsela ar faterion mewn perthynas â materion iechyd rhywiol fel y gellid eu cyhoeddi gan sefydliadau iechyd rhywiol a bennir, ac yn benodol unrhyw ddeunydd o'r fath sy'n ymwneud â heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (HDRh) a HIV-AIDS fel y gellid eu darparu gan y Cyngor. Mae llenyddiaeth o'r fath i'w harddangos mewn lleoliad amlwg.

Ymddangosiad Allanol

29. Ni fydd hysbyseb, gair, model llythrennau, arwydd, hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, dyfais, cynrychiolaeth, llun, ysgrifen neu ddeunydd tebyg i'w harddangos y tu allan i'r fangre heb gymeradwyaeth flaenorol y Cyngor, ac eithrio ar gyfer yr arwyddion neu'r hysbysiadau hynny sy'n ofynnol i'w harddangos yn unol â'r amodau hynny sydd ar y drwydded.
30. Ym mhob mynedfa i'r fangre drwyddedig, bydd rhybudd yn gwahardd mynediad i bersonau o dan 18 oed, a'r rhybudd hwnnw mewn man amlwg fel ei fod yn weladwy bob amser i bersonau sy'n dynesu at y fangre drwyddedig.
31. Ym mhob mynedfa i'r fangre drwyddedig, bydd hysbysiad yn nodi a godir unrhyw dâl am fynd i mewn i'r fangre drwyddedig, a'r hysbysiad hwnnw mewn man amlwg fel ei fod hyn weladwy bob amser i bersonau sy'n dynesu at y fangre drwyddedig.
32. Caiff yr holl fynedfeydd i'r fangre drwyddedig eu dylunio a'u hadeiladu fel y caiff pobl y tu allan i'r fangre drwyddedig eu hatal rhag cael golwg ar unrhyw ran o'r tu mewn.
33. Mae'n rhaid i'r holl ffenestri gael eu gwisgo neu'u dylunio er mwyn atal pobl y tu allan i'r fangre drwyddedig rhag cael golwg ar unrhyw ran o'r tu mewn.
34. Ni chaiff unrhyw ffenestr gynnwys unrhyw arwydd, deunydd hysbysebu, nwyddau neu arddangosfeydd sy'n debygol o beri tramgwydd i bersonau sy'n mynd heibio'r ffenestr.

Golwg, Cyflwr a Chynllun y Fangre Drwyddedig

35. Mae'n rhaid i'r fangre drwyddedig bob amser gael ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr da.
36. Mae'n rhaid i'r goleuadau ym mhob rhan o'r fangre drwyddedig fod yn weithredol yn barhaus yn ystod yr holl amser mae ar agor fel sefydliad rhyw.

37. Cedwir pob rhan o'r fangre drwyddedig mewn cyflwr glân a glanwaith er boddhad y Cyngor.
38. Mae'n rhaid i ddrysau ac agoriadau sy'n arwain at rannau o'r fangre drwyddedig nad ydynt yn agored i'r cyhoedd gael eu marcio'n glir "staff yn unig" neu gan unrhyw arwydd arall sy'n atal y cyhoedd rhag defnyddio drysau neu agoriadau o'r fath.
39. Bydd dyfais yn cael ei gosod ar ddrysau allanol y fangre drwyddedig i ddarparu ar gyfer eu cau'n awtomatig ac mae'n rhaid cynnal a chadw dyfeisiau o'r fath yn dda.
40. Bydd y Trwyddedai yn gwneud darpariaeth yn y cyfrwng mynediad i mewn ac o fewn y fangre drwyddedig ar gyfer anghenion aelodau o'r cyhoedd sy'n anabl.
41. Mae'n rhaid i'r holl arddangosion, arddangosfeydd' dangosfeydd a gweithgreddau tebyg fod ar agor ac ar gael i'r holl gwsmeriaid yn ddi-dâl ac eithrio unrhyw dâl mynediad c ychwynnol i'r fangre drwyddedig ac ni fydd unrhyw giwbiclau nac ystafelloedd unigol wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer personau unigol, neu grwpiau o bersonau, lle gellid cynnal arddangosfeydd, arddangosiadau neu weithgareddau tebyg yn unig heb gymeradwyaeth flaenorol y Cyngor.
42. Mae'n rhaid i'r Trwyddedai bob amser gymryd pob rhagofal rhesymol er diogelwch y cyhoedd a'r cyflogeion.
43. Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw fesurau atal tân a diogelwch a allai fod yn ofynnol gan y Cyngor a/neu Awdurdod Tân De Cymru a bydd yn cynnal a chadw ac yn sicrhau bod yr holl gyfarpar a'r diffoddwyr tân ar gael i'w defnyddio.
44. Ni chaniateir gwneud unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau, nail ai'n fewnol neu'n allanol ac, boed yn barhaol neu dros dro, i strwythur, goleuadau neu gynllun y fangre drwyddedig heb gymeradwyaeth flaenorol y Cyngor.

Amodau trwydded ychwanegol yn ymwneud â darparu dawnsio glin, dawnsio ochr bwrdd ac unrhyw adloniant arall sy'n cynnwys strip-bryfocio a / neu noethni mewn mangre drwyddedig fel lleoliad adloniant rhywiol.

1. Mae'n rhaid gosod system Teledu Cylch Cyfyng i gwmpasu holl fynedfeydd ac allanfeydd yr adeilad, ac ardaloedd lle bydd adloniant perthnasol yn digwydd. Mae'n rhaid i'r system gael ei gosod ac mae'n rhaid iddi fod yn llwyr weithredol cyn i'r adeilad agora r gyfer y gweithgarwch trwyddedadwy y gwnaed cais amdano. Bydd yr holl gamerâu yn recordio'n barhaus tra bydd yr adeilad ar agor i'r cyhoedd a bydd recordiadau fideo yn cael eu cadw wrth law am leiafswm cyfnod o 28 niwrnod. Bydd y fangre yn darparu lluniau ar gais yr Heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 24 awr i'r cais. Bydd hysbysiad yn cael ei

arddangos ym mynedfa'r fangre yn cynghori bod Camerâu Cylch Cyfyng yn yn weithredol.

2. Bydd nifer ddigonol o Oruchwylwyr Drws trwyddedig ar ddyletswydd yn y fangre tra digwydd adloniant perthnasol. Bydd o leiaf un Goruchwylwr Drws ar bob mynedfa, ym mhob rhan ar wahân o'r adeilad ac ar y drws i'r ystafell wisgo.
3. Bydd arwyddion yn dangos y rheolau ar berfformiad adloniant perthnasol yn cael eu dangos ar hyd y fangre a'r arwyddion yn hollol weladwy i noddwyr. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ardal bwth unigol preifat.
4. Bydd hysbysiad clir amlwg yn cael ei ddangos ar bob mynedfa i'r fangre yn cynghori cwsmeriaid na chaniateir mynediad i bersonau dan 18 oed a gellid gofyn iddynt ddangos tystiolaeth o'u hoedran.
5. Mae'n rhaid i bob aelod o staff yn y fangre geisio "tystiolaeth gredadwy ffotograffig o dystiolaeth oedran" gan unrhyw berson sy'n ymddangos dan 25 oed ac sy'n ceisio mynediad i'r fangre. Bydd tystiolaeth gredadwy o'r fath, a fydd yn cynnwys llun o'r cwsmer, naill ai'n basbort, yn drwydded yrru, neu gerdyn Prawfesur yn ôl Oedran yn cario'r logo "PASS".
6. Ni fydd oedran y perfformwyr yn iau na 18.
7. Mae'n rhaid cadw llyfr log yn yr adeilad yn manylu ar enwau, amserau cychwyn a gorffen perfformwyr unigol sy'n ymwneud â phob ffurff o adloniant oedolion.
8. Caniateir noethni llwyr (dangos organau cenhedlu) ar y llwyfan yn unig ac nid mewn unrhyw fan arall yn y fangre.
9. Ni fydd gweithred rhyw yn digwydd.
10. Bydd yr ardal a fwriedir ar gyfer strip-bryfocio (yn ymwneud â noethni llwyr):-
 - (a) mewn lleoliad lle na ellid gweld y perfformiad o'r stryd
 - (b) mewn ardal benodedig o'r fangre yn llwyr ar wahân i'r gynulleidfa
 - (c) mewn lleoliad lle bydd gan y perfformwyr fynediad uniongyrchol i'r ystafell wisgo heb orfod mynd heibio'r rhan honno sy'n agos iawn i'r gynulleidfa.
11. Bydd yr ardal a fwriedir ar gyfer dawnsio tap, dawnsio bwrdd (yn ymwneud â noethni rhannol) mewn lleoliad lle na ellid gweld y perfformiad o'r stryd.
12. Ni fydd unrhyw gyswllt corfforol rhwng personau sy'n ymddangos ar y llwyfan a'r gynulleidfa; rhoddir yr adloniant yn unig gan berfformwyr/adlonwyr ac ni chaniateir i'r gynulleidfa gymryd rhan.

13. Dylai'r personau sy'n ymddangos ar y llwyfan gael mynediad uniongyrchol i'r ystafell wisgo heb orfod mynd drwodd neu fynd yn agos i'r gynulleidfa. Rhoddir trefniadau yn eu lle i gyfyngu mynediad i'r ystafell wisgo pan fydd yr adloniant perthnasol yn digwydd, a than yr amser y bydd yr holl berfformwyr wedi gadael yr ystafell wisgo.
14. Mae'n rhaid i ddawnswyr côl/bwrdd wisgo ar unwaith ar ddiwedd pob perfformiad.
15. Ni fydd y drwydded, y perfformiwr a'r person perthnasol sy'n gysylltiedig â threfnu neu reoli'r adloniant yn annog, nac yn caniatáu annog y gynulleidfa i daflu arian at, neu fel arall gyfleu diolchgarwch i'r perfformiwr (ac eithrio fel y caniateir gan amodau 17 isod).
16. Gallai adloniant a ddarperir gan ddawnswyr bronnoeth i gwsmeriaid sy'n eistedd wrth fyrddau ddigwydd yn y rhannau hynny o'r fangre a gymeradwywyd gan y Cyngor.
17. Ni fydd unrhyw gyswllt corfforol rhwng cwsmeriaid a'r dawnswyr ac eithrio pan drosglwyddir arian neu dalebau i ddwylo'r dawnsiwr ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad. Tra bydd y dawnswyr yn perfformio bydd lleiafswm pellter o un metr rhwng y dawnsiwr a'r cwsmeriaid sy'n eistedd. Arddangosir hysbysiadau i'r perwyl hwn ar bob bwrdd ac ar y fynedfa i'r fangre.
18. Petai cwsmer yn ceisio cyffwrdd â dawnsiwr, mae'n rhaid i'r dawnsiwr gilio nôl a hysbysu'r mater i'r rheolwr/arolygwr.
19. Ni fydd unrhyw gyswllt corfforol rhwng dawnswyr tra byddant yn perfformio ac ni chaniateir cyfranogiad cynulleidfa.
20. Bydd yn rhaid i'r dawnswyr bronnoeth bob amser wisgo llinyn-G neu ddilledyn tebyg sy'n gorchuddio rhannau priodol o'r corff.
21. Petai'r adloniant perthnasol yn cael ei berfformio ar gyfer gwyllo preifat, hysbysir y noddwr o hyd a phris yr adloniant perthnasol, a nodir y manylion mewn hysbysiad sy'n hollol weladwy ym mhob ardal benodedig ar gyfer adloniant preifat perthnasol.
22. Bydd y gweithgareddau a gymeradwywyd yn digwydd yn unig yn yr ardaloedd a benodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu. Ni fydd y cynllun o fewn ardaloedd a ddefnyddir gan y cwsmeriaid yn cael ei newid yn sylweddol heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr Awdurdod Trwyddedu ynghyd â'r Heddlu.
23. Bydd larwm panig yn cael gosod yn yr holl fythau dawnsio er diogelwch.

24. Wrth adael y fangre, bydd perfformwyr sy'n dymuno, yn cael eu hebrwng gan aelod o'r staff i'w cerbyd neu i leoliad diogel arall.